Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cofnodion cyfarfod 24 Mai 2022 a gynhaliwyd dros Zoom

Yn bresennol: Parch Simon Walkling (Llywydd); Rheinallt Thomas (Cyn Lywydd); Aled Davies; Chris Gillham; Gareth Morgan Jones; Judith Morris; Meirion Morris; Dyfrig Rees; Ian Morris; Peter Dewi Richards; Irfon Roberts; Vaughan Salisbury; Eirian Wyn; Steffan Wiliam (yn cyfieithu); Helen Jones (Ysgrifennydd)

Derbyniwyd Ymddiheuriadau: Martin Spain (Trysorydd); Gethin Rhys, Bryn Williams, Nerys Siddall;

1. Croeso: Croesawyd pawb yn gynnes iawn i'r cyfarfod gan y Llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau.

2. Defosiwn: Roedd y defosiwn yng ngofal y Llywydd. Darllenodd ran o Ioan 17: 20 – 27 - Y weddi yn yr Ardd. Yn ei fyfyrdod soniodd am yr undeb trefniadol organig — yr eglwys unedig a'r angen am ostyngeiddrwydd yn ein bywyd eciwmenaidd.

3. Cofnodion cyfarfod 9 Tachwedd 2021: Derbyniwyd y Cofnodion gyda Rheinallt Thomas yn cynnig eu bod yn gywir ac eiliwyd gan Peter Dewi Richards. Diolchwyd i'r Ysgrifennydd am gofnodi.

3i. Materion yn codi – Dim

3ii. Dogfen Gweinidogaeth Bro
Arweiniwyd yr adroddiad gan Judith Morris. Mynegodd na fyddai'r sefyllfa'n newid o gwbl hyd nes apwyntir olynydd i Peredur Owen Gruffydd. Mae cyfarfodydd yn digwydd yn rheolaidd ac yn adeiladol eu cynnwys. Ychwanegodd bod Ainsley Griffiths o'r Eglwys yng Nghymru bellach yn ran o'r cwmni. Nid oedd gan Meirion Morris na Dyfrig Rees ddim i'w ychwanegu. Dywedodd Aled Jones yr oedd wedi deall na fyddai Cytûn yn apwyntio olynydd tan ddiwedd y flwyddyn ac roedd hyn yn gonsyrn na fyddai'r Eglwysi Cyfamodol yn cyfarfod cyn hynny.
Ychwanegodd Rheinallt bod Archesgob Andy John yn ei araith ar ei orseddu wedi galw ar yr enwadau i ddod at ei gilydd i gydweithio. Edrychir ymlaen gyda gobaith i'r dyfodol gyda chanolfannau o drefniant eciwmenaidd yn bodoli ond trist fyddai diffyg darpariaeth mewn ardaloedd mwy gwasgaredig.
Diolchwyd i Judith am arwain y drafodaeth.

Pwyntiau gweithredu: Parhaed y grŵp i gyfarfod ac adrodd nôl ym mis Tachwedd.

4. Adroddiad y Llywydd
Mynegodd Simon ei fod yn derbyn gwahoddiadau gan Lywodraeth Cymru. Mae e'n cynrychioli ar Fforwm Cymunedau Ffydd. Os oes rhywun angen gwybodaeth am y Cymuned Rhyng ffydd bydd Simon ddigon balch i rannu. Gan fod trefniadau Cofid wedi lleihau mae cyfarfodydd Grŵp Tasg mannau o Addoli Cofid wedi arafu.
Mynychodd Simon wasanaeth Gorseddu y Parchedig John Lomas yn Esgob Abertawe a Aberhonddu yn Chwefror. Cynrychiolodd Rheinallt Y Cyngor yng Nghadeirlan Bangor adeg Gorseddu y Gwir Barchedig Andrew John fel Archesgob Cymru. Methodd y Llywydd fynd i Gynhadledd Esgobion yr Eglwys Rufeinig Gatholig.

5. Adroddiad Cytûn - (Anfonwyd adroddiad allan ymlaen llaw)

1.Ymunodd Gethin gyda'r Cyngor am 11.40.
Pwynt 2 Materion Eiddo. Tynnodd ein sylw at ddyddiad, dydd Iau 30 Mehefin i gynhadledd ar lein EcoEglwys. Pwysleisiodd os oedd rhywun am ymuno gyda'r gynhadledd i'w e-bostio ar fyrder.
2. Mae Cadw a'r 3 enwad bellach yn cydweithio ar natur hanesyddol henebion Cymru dan arweiniad Susan Fielding. Mae'n ofid bod hanes eglwysi'n mynd ar goll. Cyn i eglwysi gael eu dymchwel neu newid eu gwedd byddai'n dda cael lluniau ffotograffig.
3. Tud 3. Pwynt 6. Dyfodol Cyfansoddiadol Cymru - Mae trefniadau ar y gweill rhwng Ysgrifenyddion yr enwadau i gyfarfod gydag Esgob Rowan Williams a Laura McAllister i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Parchedig Aled Edwards, Prif weithredwr Cytûn sy'n trefnu hyn. Mae Archesgob Cymru y Parchedicaf Andrew John hefyd wedi sôn ei fod am gyfarfod gydag Ysgrifenyddion yr enwadau.
4. Pwynt 7 Addysg a gwaith Ieuenctid. Rhaid ymateb erbyn diwedd y dydd 24 Mai i gofrestru.

Diolchwyd i Gethin am ymuno gyda'r cyfarfod yn ystod ei egwyl o gyfarfod arall.

6. Hyfforddiant
Mynegwyd consyrn nad oedd Bryn Williams wedi anfon Adroddiad y ddwy dro diwethaf. Cydymdeimlwyd ag ef yn ei brofedigaeth ddiweddar. Mae grŵp dan Gadeiryddiaeth yr Athro Eryl Wynn Davies yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae consyrn am achredu hyfforddiant diwinyddol Cymraeg. Nodwyd bod trafodaethau yn mynd ymlaen gyda Coleg Bedyddwyr De Cymru, Caerdydd. Pwysleisiwyd bod angen adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfodydd a'r trafodaethau sy'n mynd ymlaen ac i naill ai Bryn Williams neu Dr Eryl Wynn Davies i gyfathrebu gyda'r pwyllgor yn y dyfodol.
Diolchwyd i Meirion am ei Adroddiad.

Pwynt gweithredu: Angen Adroddiad o'r trafodaethau erbyn cyfarfod Tachwedd.

7. Adroddiadau
i. Addysg – Vaughan Salisbury (Anfonwyd adroddiad ymlaen llaw)
Soniodd Vaughan bod datblygiadau pwysig ar y gweill. Bydd deddfau yn cael eu gweithredu a'r Cwricwlwm newydd yn weithredol yn yr Ysgolion Cynradd o fis Medi yma ymlaen. Mae nifer o Gynghorau Sir wedi derbyn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel enw pwnc Addysg grefyddol. Ni fydd Cwricwlwm Ysgolion Uwchradd yn cychwyn tan Medi 2023.

2. Pwynt 1c. Soniwyd bod rhaglen gyfnewid yn lle Erasmus sef "Taith" yn weithredol eto i fyfyrwyr gael cyfle i ehangu gorwelion a theithio tramor fel rhan o'u cwrs academaidd. Mae hwn yn ychwanegu at gynllun Lloegr.

3. Bu Rheinallt a Vaughan mewn cyswllt a Zoe Keens RE Today. Mae drafft o adnoddau cyfnod Allweddol 2 sy'n ymwneud â chyfieithu adnoddau gwrth-hiliol Addysg Grefyddol wedi ei addasu ar gyfer Cwricwlwm Cymru. Bydd Vaughan yn cyfarfod a Zoe dros Zoom ar 15 Mehefin. Bydd Angela a Rheinallt yn ymuno yn y cyfarfod.

4. Cafwyd trafodaethau trwyadl ar ofidiau amlwg nad oes digon o adnoddau Cymraeg i gefnogi athrawon gyda'r maes llafur newydd. Gofidiwyd am elfen cenhadol rhai safbwyntiau i addysgu mewn ysgolion gan mai diduedd ydy'r pwnc i fod. Prif grefydd ydy Cristnogaeth ond hefyd addysgu am grefyddau arall fel ategwyd gan Kirsty Williams pan yn Weinidog Addysg.

5. Mae treftadaeth yn gyfle i eglwysi lleol fod yn rhan o Gwricwlwm Addysg. Mae Swyddog Addysg Cymdeithas y Beibl yn Swindon yn cydlynu prosiect o adnoddau yn esbonio lle y Beibl yn

hanes ein gwlad. Bydd y pecyn adnoddau yn ddwyieithog maes o law. Mynegwyd ei bod hi'n bwysig i Anghydffurfiaeth a'r enwadau lleol gael ei lais a chyswllt gydag ysgolion yng Nghymru yn ogystal â'r Eglwys yng Nghymru6. Awgrymwyd edrych ar lyfr gyhoeddodd y Cyngor yn 2002 yn dangos cysylltiad eglwysi gydag ysgolion. Cytunwyd a gwelwyd bod cyfle i eglwysi i fanteisio i agor eu drysau i esbonio y gwahaniaethau rhwng yr enwadau. Awgrymwyd creu adnodd ddigidol

o'r papur. Byddai hwn yn ddefnyddiol fel adnodd i athrawon yn y Gymraeg. Mae gan CERhC a'r FCG yr hawlfraint arno. Gwelwyd y byddai angen ei ddiwygio i ymateb i'r sefyllfa o ran y Cwricwlwm. Cytunodd Rheinallt, Vaughan ac Aled D. i edrych ar y llyfryn ac ychwanegu pe bai angen.

Pwynt gweithredu: Penderfynwyd edrych ar lyfryn gyhoeddodd y Cyngor yn 2002 "Cysylltu Eglwysi ac Ysgolion". Cydweithio gyda Cyngor Ysgolion Sul.

ii. Adroddiad Cyngor Ysgol Sul - Aled Davies (Anfonwyd adroddiad allan ymlaen llaw)

Adroddodd Aled fod bellach 5 gwefan dan ymbarél Cyngor Ysgolion Sul. Cyhoeddir nifer o lyfrau lliw defosiynol i blant yn flynyddol. Gwelwyd bod cyfle eleni i ail gysylltu gyda'r cyhoedd trwy medru bod yn bresennol yn Eisteddfod yr Urdd, Y Genedlaethol a Sioe Fawr Llanelwedd. Bydd Cyngor Ysgol Sul yn trefnu taith o gwmpas Cymru o ganol Gorffennaf hyd Medi er mwyn cael cyfle i gwrdd ag arweinwyr eglwysi.
Mynegodd bod angen grwpiau o eglwysi/capeli lleol i hyrwyddo gwaith yr Efengyl gan nad oes bellach dystiolaeth i gynnal Ysgolion Sul oherwydd gwendid o fewn eglwysi. Byddai'n dda pe bae cangen o Gyngor Eglwysi Rhyddion/ Cytûn yn cyrraedd plant/ pobl ifanc a theuluoedd ifanc wedi'r pandemig. Mae patrwm y Sul wedi newid a rhaid ystyried sut gellir rhannu newyddion Iesu Grist i dref neu bentref. Holed pawb am weledigaeth o ddyfodol eu heglwysi ac bydd angen ymgyrch genhadol dros y cyfnod o ddwy flynedd nesaf. Nodwyd bod diffyg yn bodoli i Ysgol Sul i ymgynnull yn rheolaidd mewn mannau ac efallai ystyried cyfarfod ar noson waith.

iii. Trysorydd - Martin Spain (Anfonwyd adroddiad allan ymlaen llaw)
Derbyniwyd y Mantolen a'r Adroddiad. Cynigiodd Rheinallt Thomas eu derbyn, Meirion Morris yn eilio a dangosodd pawb presennol eu cymeradwyaeth yn unfrydol.

Holwyd sawl cangen leol o Eglwysi Rhyddion sy'n bodoli bellach. Atebwyd nad oedd cyfraniad unigol gan Eglwysi Rhyddion lleol bellach a'r oll erbyn hyn yn dod dan adain Cytûn.

iv. Enwadau

i. Undeb Bedyddwyr Cymru – Judith Morris
Bydd y Gynhadledd Flynyddol ar 24 /25 Mehefin yng Nghaerfyrddin. Bydd hi'n Undeb ar y Cyd – gydag un Llywydd, sef, Parchedig Dr Densil Morgan.
Mae'r eglwysi yn dal i deimlo effaith Covid – rhai eglwysi heb ail agor ac eraill wedi penderfynu cau. Mae Cartref Glyn Nest yn dal i deimlo effaith Covid ar y deiliaid a'r staff yno.

ii. Cynulliad Methodistiaid Synod Cymru - Ian Morris
Edrychir ymlaen at sefydlu Synod Methodistaidd ddwyieithog ym mis Medi 2022.Y Cadeirydd am flwyddyn fydd Stephen Wigley i'r adran Saesneg a Jenny Hurd yn parhau gyda'r Adran Gymraeg. Yn 2023 bydd Andrew Charlworth yn Gadeirydd. Bydd Ian Morris yn arweinydd y Cylchdaith Gymraeg ac edrychir ymlaen i ymestyn eu gwaith yn yr iaith.

iii. Eglwys Bresbyteraidd Cymru – Meirion Morris.
Bydd y Gymanfa yn ail afael yn ei chyfarfod yng Nghaerdydd ym mis Medi. Mae'r EBC wedi apwyntio Parchedig Nan Powell-Davies fel eu ysgrifennydd cyffredinol o 1 Gorffennaf.

Rhennir gofid ac oblygiadau rhenti eiddo – mae deddf yn dod i rym ym mis Gorffennaf. Mae cwestiynau yn codi o gadw adeiladau dianghenraid. Mae gwaith cyd enwadol ar hyfforddiant a'r papur wythnosol Cennad yn parhau. Gwnaed adolygiad o Coleg Bala a Threfeca. Mae lefel y staffio yn y swyddfa yng Nghaerdydd yn parhau ond bellach rhennir yr adeilad gyda swyddfa Cymorth Cristnogol.

iv. Undeb yr Annibynwyr Cymraeg – Dyfrig Rees.
Mae gweithgareddau'n ail gydio yn eu trefniadau addoli a phobl yn dychwelyd i'w addoldai. Mae rhai eglwysi'n parhau gyda gwasanaethau Zoom ac fe werthfawrogir hyn.
Bydd yr Undeb yn cyfarfod yng Nghaerfyrddin ail wythnos Gorffennaf.
Mae staff y swyddfa yn gweithio yn rhannol o adref ac mae adolygiad a diwygio fel y gofyn.
Mae'r Tyst yn falch o gael prynu 3 tudalen ac mae Parchedig Alun Tudur yn gwerthfawrogi'r cydweithrediad cyd enwadol hyn.

Mae prosiectau yn dod i'r Undeb mis Gorffennaf gyda phwyslais ar newid hinsawdd, yr economi a Dementia.

v . Congregational Federation - Chris Gillham
Bydd yr enwad yn dathlu 50 mlynedd ers ei gorffori. Bydd dathliad ar 8 fed Hydref yn eu Cynhadledd

vi. Eglwys Unedig Ddiwygiedig – Simon Walkling
Bydd 50 mlynedd ers ymgorfforiad EDdU. Mae staff y swyddfa yn newydd ac mae gweinidogion newydd a lleyg yn cael eu sefydlu.

8. Free Churches Group – Paul Rochester – Dim adroddiad
Mynegwyd bod Llywydd newydd Parch. Helen Cameron yn awyddus i ddod i Gymru ac i'r cyfarfod nesaf. Byddai Paul Rochester yn dod gyda hi.

9. UFA

Diolchodd y Llywydd i Meirion Morris am ei gyfraniad i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd. Dymunwyd iddo ymddeoliad hapus, iach. Gofynnwyd i ni weddïo dros Nan Powell Davies wrth iddi gymryd drosodd fel Ysgrifennydd Cyffredinol EBC.

Diolchwyd i Helen am gofnodi ac i Steffan am gyfieithu yn effeithiol.

10. **Y Fendith**
Gorffennwyd y cyfarfod am 12.30 drwy weddi a rhannu'r gras gan y Llywydd.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF – 22 Tachwedd 2022

Lleoliad i'w gadarnhau

Tŷ John Penri Swyddfa Annibynwyr Cymraeg a thrwy gyfrwng ZOOM.